www.gov.wales

Llywodraeth Cymru
Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol – Adolygiad yn ystod y flwyddyn

Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd – L035

Ionawr 2019

Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

Statws Cydreoleiddio – Ionawr 2019

Llywodraethu a Cyflawni Gwasanaethau – Wedi Cynyddu

- Risg neu gyfuniad o risgiau yn profi i fod yn her sylweddol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac mae angen cynyddu goruchwyliaeth reoleiddiol.

Hyfywedd Ariannol - Safonol

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.

Mae Dyfarniad Rheoleiddiol Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd wedi ei adolygu am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Gymdeithas wedi dangos y gwelliannau llywodraethu gofynnol a oedd yn flaenoriaeth
- Maent wedi mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch

Mae angen rhagor o oruchwyliaeth rheolaethol er mwyn bodloni'r safonau perfformiad a ganlyn:

SP 1.0 Rheoli effeithiol ar lefel weithredol ac ar lefel bwrdd gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y Gymdeithas

- Mae'r trefniadau llywodraethu yn dal i wella ac yn parhau i ateb y gofyn.

SP 3.0 Asesiad cynhwysfawr o effeithiau busnes risgiau presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn.

- Sicrhau effeithiolrwydd y fframwaith rheoli risg diwygiedig.

SP 6.0 Cyflenwi gwerth am arian ym mhob maes o'r busnes

- Dangos dull strategol o sicrhau a chyflawni gwerth am arian ym mhob rhan o'r busnes.